sir ddinbych denbighshire
Cyngor / County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 6 Ebrill 2022 |
| | | Rhif Union: | 01824712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 12 EBRILL 2022** am **10.00 am** yn **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a drafodir yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 (copi'n amgaeedig).

5 **AILFODELU’R GWASANAETHAU GWASTRAFF – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y SEFYLLFA ARIANNOL GAN GYNNWYS ACHOS BUSNES WEDI’I DDIWEDDARU** (Tudalennau 15 - 58)

Ystyried adroddiad yn gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, (copi’n amgaeedig) sy’n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf i’r Cabinet am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cost a chyllideb prosiect Ailfodelu’r Gwasanaethau Gwastraff ac sy’n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Achos Busnes diwygiedig.

6 **CERBYDAU FFLYD GWASTRAFF NEWYDD 5M – DYFARNU’R CONTRACT** (Tudalennau 59 - 84)

Ystyried adroddiad **(sy’n cynnwys atodiadau cyfrinachol)** gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, (copi’n amgaeedig) sy’n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i’r cyflenwr a ffefrir ar gyfer 14 Cerbyd Adfer Adnoddau 5M fel rhan o brosiect ailfodelu ehangach y Gwasanaethau Gwastraff.

7 **CAM 2 GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF, DYFARNU CONTRACT COLOMENDY DRWY BENDERFYNIAD WEDI’I DDIRPRWYO** (Tudalennau 85 - 114)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, (copi’n amgaeedig) ynglŷn â datblygiad Cam 2 Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd CSDd ac i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu’r contract i’r contractwr a ffefrir drwy benderfyniad wedi’i ddirprwyo.

8 **PROSIECT YSGOL PLAS BRONDYFFRYN – CYNNIG I YMGYNGHORI’N FFURFIOL YNGHYLCH TREFNIADAETH YR YSGOL A’R ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL DRAFFT** (Tudalennau 115 - 194)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd, (copi’n amgaeedig) sy’n gofyn i’r Cabinet gymeradwyo cyflwyno Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru a dechrau ymgynghori ynghylch cynigion i gynyddu nifer y lleoedd o 116 i 220.

9 **TREFNIADAU CYDWEITHIO CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU CYMRU (AWDURDOD LLEOL)** (Tudalennau 195 - 276)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd, (copi’n amgaeedig) ar drefniadau cydweithio cenedlaethol Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu ac i dderbyn cytundeb y Cabinet i lofnodi Cytundeb Cyfreithiol y Cyd-bwyllgor ar gyfer y Cyd-bwyllgor arfaethedig.

**10 FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW RHAGWEITHIOL (MÂN WAITH) – YSGOLION AC EIDDO NAD YDYNT YN YSGOLION** (Tudalennau 277 - 304)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, (copi'n amgaeedig) ynglŷn â chanlyniad yr ymarfer caffael i sefydlu Fframwaith Cynnal a Chadw Rhagweithiol ar gyfer gwaith ar stoc adeiladau corfforaethol y Cyngor ac i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi'r contractwyr argymelledig ar gyfer lotiau'r fframwaith.

**11 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 305 - 322)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 323 - 328)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| **Hugh Evans** | **Tony Thomas** |
| **Bobby Feeley** | **Julian Thompson-Hill** |
| **Huw Hilditch-Roberts** | **Brian Jones** |
| **Richard Mainon** | **Mark Young** |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned